



ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU

15/07/2022

Teitl: Datganiad o Gyfrifon y BUEGC am 2021/22.

Awdur: Dewi A Morgan, Swyddog Cyllid Statudol yr Awdurdod Lletya
Sian Pugh, Cyfrifydd Grŵp yr Awdurdod Lletya

1. Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r Datganiad o Gyfrifon statudol ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22, sy'n rhoi manylion am weithgareddau ariannol y Cyd-Bwyllgor yn ystod y flwyddyn ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022.

2. Y Penderfyniad a Geisir

2.1 **Gofynnir i'r Bwrdd dderbyn a nodi Datganiad o Gyfrifon y BUEGC (yn amodol ar archwiliad) am 2021/22.**

3. Y Rhesymau dros y Penderfyniad

3.1 Nid oes gofyn statudol i'r Bwrdd gymeradwyo'r fersiwn ddrafft o Ddatganiad o Gyfrifon y Cyd-Bwyllgor, ond rydym yn ystyried fod cyflwyno'r datganiad drafft er gwybodaeth yn arfer da i'w ddilyn.

3.2 Bydd angen i'r Bwrdd gymeradwyo'r fersiwn terfynol ym mis Hydref ar ôl derbyn adroddiad Archwilio Cymru, ond mae cyflwyno'r fersiwn ddrafft rŵan yn gyfle i aelodau'r Bwrdd ystyried y cynnwys a holi swyddogion ariannol am y cynnwys. Mae

hyn yn gyfle i'r aelodau arfogi eu hunain gyda gwybodaeth perthnasol er mwyn ystyried risgiau perthnasol, a materion eraill fydd yn destun archwiliad, yn eu cyd-destun.

4. Cefndir ac Ystyriaethau Perthnasol

4.1 Mae BUEGC, am y flwyddyn gyntaf yn 2021/22, wedi cynhyrchu Datganiad Cyfrifon blynyddol llawn yn hytrach na ffurflen flynyddol, a ddefnyddir ar gyfer Cyd-Bwyllgorau llai eu maint sydd â trosiant llai na £2.5m.

4.2 Mae'r cyfrifon drafft a gyflwynir yma wrthi'n cael eu harchwilio gan Archwilio Cymru a cyflwynir y fersiwn derfynol yn dilyn archwiliad er cymeradwyaeth yng nghyfarfod Hydref 2022 o'r BUEGC.

4.3 Cyflwynwyd adroddiad ar sefyllfa alldro Refeniw a Chyfalaf i'r Bwrdd ar 29 Ebrill 2022. Roedd yr adroddiad hwnnw yn fwy defnyddiol i bwrsasau mewnol / rheoli, tra mae'r Datganiad o Gyfrifon yn fwy addas ar gyfer pwrsasau allanol / llywodraethu.

5. Goblygiadau Cyfreithiol

5.1 Noda Adran 12 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 bod cyd-bwyllgor o ddau neu fwy o awdurdodau (lleol) yn gorff llywodraeth leol, ac mae Adran 13 y Ddeddf yn mynnu bod y cyrff hyn yn cynnal cyfrifon sy'n ddarostyngedig i archwiliad gan archwilydd allanol a gymeradwyir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

6.2 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'i diwygiwyd) yn mynnu bod yr holl Gyd-Bwyllgorau yn paratoi cyfrifon diwedd blwyddyn. Lle mae'r incwm neu wariant blynyddol dros £2.5m, pennir bod y cyd-bwyllgor yn "gorff perthnasol mwy" a bydd angen paratoi Datganiad Cyfrifon blynyddol yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu mewn Awdurdodau Lleol.

6. Atodiadau

Atodiad 1 – Datganiad o Gyfrifon y BUEGC am 2021/22

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro – Corff Atebol:

Nid oes unrhyw oblygiadau priodoldeb na chyfreithiol.

ii. Swyddog Cyllid Statudol – Corff Atebol:

Awdur yr adroddiad hwn.